# 8. Y Tywyllwch a'r Goleuni

Nifer o ieuenctid yn mynd i'r pulpud.

| | |
|---|---|
| Darllenydd: | Ein byd ni yw'r blaned a gafodd ymweliad. Gwrandewn ar eiriau Iesu ar ddechrau ei Efengyl: Ioan 1:1–5. |

**LITANI Y TYWYLLWCH A'R GOLEUNI**

GRŴP O LEISIAU – Y TYWYLLWCH

| | |
|---|---|
| Llais: | Rydan ni'n brifo y rhai sy'n ein caru ac mae cwerylon yn rhwygo'n cartrefi. |
| Pawb: | Tyred, O Grist, a rho i ni d'Oleuni. |
| Llais: | Mae ein byd wedi'i dywyllu â chymylau rhyfel a chysgodion newyn. |
| Pawb: | Tyred, O Grist, a rho i ni d'Oleuni. |
| Llais: | Rydan ni'n ceisio gwella pethe yn ein nerth ein hunain, ond yn ofer. |
| Pawb: | Tyred, O Grist, a rho i ni d'Oleuni. |

GRŴP O LEISIAU – Y GOLEUNI

| | |
|---|---|
| Llais: | Ganwyd i chwi heddiw Geidwad, yr hwn yw Crist yr Arglwydd. |
| Pawb: | Gogoniant i Dduw yn y goruchaf! |
| Llais: | Y bobl a rodiasant mewn tywyllwch a welsant oleuni mawr. |
| Pawb: | Gogoniant i Dduw yn y goruchaf! |
| Llais: | Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol. |
| Pawb: | Gogoniant i Dduw yn y goruchaf! |
| Llais: | 'Y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth, a ddarperaist yng ngŵydd yr holl bobloedd, goleuni i fod yn ddatguddiad i'r cenhedloedd, ac yn ogoniant i'th bobl Israel.' |
| Pawb: | Gogoniant i Dduw yn y goruchaf! |
| Myfyrdod: | O Dduw, ein Tad Tragwyddol, bu i ti drwy genedlaethau lawer baratoi'r ffordd yn ein byd ar gyfer dyfodiad dy fab Iesu, a heddiw, drwy dy Ysbryd Glân, yr wyt ti'n dwyn goleuni'r efengyl i mewn i fywydau'r rhai sydd mewn tywyllwch. |

O Arglwydd byw, ymgrymwn mewn addoliad o flaen dirgelwch y baban a aned mewn stabl ym Methlehem. Yr wyt ti wedi dod i lawr i'n lefel ni, yn ddyn ymysg dynion. Ni allwn ei ddeall, ond diolchwn fod yma fynegiant mewn cig a gwaed o'th gariad anfeidrol tuag atom, er mwyn i ni gael bywyd newydd a chariad newydd.

Iesu, o'r crud i'r bedd fe dderbyniaist ti bobl fel yr oedden nhw, beth bynnag eu cyflwr, a gwnaethost nhw yn bobl newydd. Gweddïwn am i ti orchfygu'r tywyllwch yn ein bywydau ni y noson hon â golau dy bresenoldeb. Nid ydyn ni'r hyn y dylen ni fod – does gennyn ni fawr i'w gynnig, nid ydyn ni'n sicr bob amser beth a gredwn. Ond gwna dy gartref yn ein bywydau, Arglwydd, hyd yn oed os ydyn nhw mor frwnt ac oer â'r stabl honno. Tyrd i mewn, a gwna rywbeth ohonon ni, fel y gallwn ninnau hefyd weithio o blaid y goleuni yn dy fyd.

Yn awr, Arglwydd, wrth i ni droi am adre, llewyrched dy gariad di yn ein calonnau, fel y byddwn yn dwyn llawenydd i bawb y down ar eu traws. Boed i'th oleuni di ynon ni ei gwneud hi'n haws i eraill fyw gyda ni gartref ac yn ein gwaith. A boed i'th gariad di ynon ni, ein galluogi i helpu y rhai sydd mewn angen o'n cwmpas. Amen

**DIWEDD**